# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-06-07(p4)

### Dyddiad: Dydd Mercher 14 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Adroddiad y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 9.9 a'i Bapur i'w gyflwyno i'r Trydydd Cynulliad.

#### Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo'r adroddiad a'r Papur i'w gyflwyno i'r Trydydd Cynulliad yn Atodiadau 1 a 2 yn ?u trefn.

#### Cefndir

2. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc roi adroddiad i'r Cynulliad "o bryd i'w gilydd" ar eu cynnydd o ran cyflawni eu rhaglenni gwaith. Bob blwyddyn mae'r pwyllgorau wedi gosod eu hadroddiadau gerbron y Cynulliad . Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn cynnwys y cyfnod o 1 Mai 2006 hyd at 31 Mawrth 2007.

3. Mae'r papur i'w gyflwyno i'r Trydydd Cynulliad yn crynhoi gwaith y Pwyllgor yn ystod yr ail Gynulliad ac mae'n nodi rhai o'r materion y mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai pwyllgor(au) yn y Trydydd Cynulliad eu hyrwyddo.

#### Cam i'w gymryd

4 Bydd yr adroddiad a'r papur i'w gyflwyno i'r Trydydd Cynulliad, fel y cytunwyd arno gan y Pwyllgor, yn cael ei osod gerbron y Cynulliad.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Mawrth 2007

### Atodiad 1

### Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
### Adroddiad i'r Cynulliad 2006 - 2007

#### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad am hynt eu rhaglenni gwaith. Mae’r adroddiad hwn yn ymdrin ?146;r cyfnod o 1 Mai 2006 i 31 Mawrth 2007.

## 2. Aelodaeth

| |
|---|
| Brian Gibbons (Gweinidog) |
| John Griffiths |
| Helen Mary Jones |
| Jonathan Morgan |
| Lynne Neagle |
| Jenny Randerson |
| Karen Sinclair |
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) |

## 3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod dan sylw cyfarfu’r Pwyllgor yn ffurfiol 17 gwaith. Cafodd pob cyfarfod ei gynnal yn gyhoeddus, ar wah?i’r cyfarfodydd hynny pan fu’r Pwyllgor yn trafod ei gasgliadau yng nghyswllt yr adolygiad o Wasanaethau Canser ar gyfer Pobl Cymru.

## 4. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

4.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy’n ymwneud ?hob agwedd ar ofal iechyd; diogelwch bwyd; gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae’r portffolio ynghlwm yn Atodiad 1.

4.2 Mae cyfrifoldebau’r pwyllgorau pwnc wedi’u nodi mewn Rheolau Sefydlog ac maent ynghlwm yn Atodiad 2.

## 5. Amcanion

5.1 Eglurodd y Pwyllgor ei amcanion yn y Flaenraglen Waith Strategol ar gyfer y flwyddyn o fis Mai 2006 ymlaen. Yr amcanion oedd craffu ar bolis? Llywodraeth Cynulliad Cymru a monitro’r ffordd y c? eu gweithredu i ofalu bod pobl Cymru yn cael gwasanaethau i wella’u hiechyd ynghyd ?ofal iechyd a gofal cymdeithasol pan fo’u hangen.

5.2 Wrth adolygu a datblygu polisi, cytunodd y Pwyllgor y byddai’n cyflwyno argymhellion a fyddai’n arwain at wasanaethau cost effeithiol o safon a fyddai’n cael eu rheoleiddio a’u harolygu’n rheolaidd.

## 6. Hynt y gwaith

6.1 Mae’r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio ar graffu ar ddeddfwriaeth ac adolygu a chraffu ar bolis? a’r ffordd y c? eu gweithredu. Y mae hefyd wedi derbyn adroddiadau gan y Gweinidog yn rheolaidd ynghylch y blaenoriaethau a nodwyd yn y Flaenraglen Waith Strategol.

7. Datblygu ac Adolygu Polisi (Rheol Sefydlog 9.7)

Yn dilyn proses ymgynghori ragarweiniol yn fuan yn 2006, cytunodd y Pwyllgor ar 5 Ebrill i gynnal adolygiad polisi o wasanaethau canser i bobl Cymru; dyma oedd y cylch gorchwyl:

- i. adolygu cydraddoldeb y ddarpariaeth a mynediad cyfartal i ystod lawn o wasanaethau canser o ansawdd uchel sy'n bodloni'r Safonau Canser Cenedlaethol;
- ii. nodi'r rhwystrau i wasanaeth da ac argymell mesurau i'w goresgyn;
- iii. cyflwyno adroddiad ar ddarganfyddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad erbyn 2 Mawrth 2007.

Penododd y Pwyllgor grwp cyfeirio arbenigol dan gadeiryddiaeth Dr Andrew Fowell, Ymgynghorydd MacMillan mewn Meddygaeth Liniarol yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru, i roi cyngor ynghylch cymhlethdodau gwasanaethau canser. Roedd y grwp yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau a’r sector gwirfoddol. Cyfarfu bedair gwaith, gan gynnwys cyfarfod terfynol ?146;r Pwyllgor ar 13 Rhagfyr i gynghori’r Pwyllgor ynghylch y dystiolaeth a gasglodd yn ystod yr adolygiad.

Ar 25 Ebrill, cyhoeddodd y Pwyllgor lythyr ymgynghori’n gofyn am sylwadau ar nifer o faterion a ddaeth i’r amlwg yn ystod y broses ymgynghori ragarweiniol. Cafwyd tri deg saith o ymatebion.

Ym mis Gorffennaf, bu’r Cadeirydd, Rhodri Glyn Thomas AC, Jonathan Morgan AC a Jenny Randerson AC, yn ymweld ?hanolfan Fran?s Baclesse, canolfan ganser yn Caen, Normandi, yng nghwmni’r Athro’r Farwnes Finlay o Landaf, a oedd wedi hwyluso’r daith drwy ei chysylltiadau ?146;r Ganolfan, a Dr Fowell.

Ym mis Medi, trafododd y Pwyllgor yr holl dystiolaeth yr oedd wedi’i chasglu a phenderfynodd gyfyngu ei ffocws a chanolbwyntio ar y meysydd hynny nad oeddynt yn cael eu datblygu’n barod, ac y teimlwyd bod lle i ddylanwadu arnynt. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar mewn cyfarfodydd rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2006.

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 5 Chwefror a bu’r Cyfarfod Llawn yn ei drafod ar 14 Mawrth.

## Materion Eraill yn ymwneud ?atblygu ac Adolygu Polisi

Treuliodd y Pwyllgor gryn dipyn o amser yn adolygu gwasanaethau canser, ond ym mis Mai, trafododd y Pwyllgor hynt y gwaith o weithredu’r ‘Agenda ar gyfer Newid’ Coleg Brenhinol y Nyrsys.

Roedd Iechyd Meddwl yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau’r Pwyllgor ac ym mis Mai, trafododd bapur gwyrdd yr Undeb Ewropeaidd ar Iechyd Meddwl. Ysgrifennodd y Cadeirydd at Gyfarwyddwr

Cyffredinol Iechyd yn rhoi sylwadau'r Pwyllgor. Ym mis Mehefin, clywodd gan Hafal, a fu'n trafod y problemau sy'n wynebu dynion ?hroblemau iechyd meddwl a'r gwaith y mae'r corff yn ei wneud i'w cynorthwyol.

## 8. Craffu ar Ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

8.1 Cafodd y Pwyllgor restr o is-ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad yn rheolaidd, a nododd yr Aelodau'r eitemau hynny y credent y dylai'r Pwyllgor graffu arnynt.

8.2 Craffodd y Pwyllgor ar 19 eitem o is-ddeddfwriaeth, yn unol ?146;r protocol y cytunwyd arno.

8.3 Cyfeiriodd Cyfarfod Llawn y Cynulliad ddau Fesur gan Senedd y DU at y Pwyllgor at ddibenion craffu:

- i. Y Mesur Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru);
- iii. Y Mesur Iechyd Meddwl;

8.4 Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Comisiynydd Pobl Hyn ym mis Mai a chyflwynwyd yr adroddiad ar 23 Mehefin. Roedd y Pwyllgor wedi trafod y Mesur drafft y flwyddyn flaenorol.

8.5 Craffodd y Pwyllgor y Mesur Iechyd Meddwl ym mis Ionawr. Roedd rhai agweddau ar y Mesur yn peri pryder i'r Aelodau ac ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog yn gofyn iddo geisio pwerau fframwaith i Gymru er mwyn sicrhau y byddai'r ddeddfwriaeth yn cyd-fynd ?holisi iechyd meddwl Cymru.

## 9. Monitro a Chraffu (Rheol Sefydlog 9.7 (ii) a (iii))

9.1 Mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio ar fonitro perfformiad Llywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau a'r tair Arolygiaeth. Bu adroddiad y Gweinidog yn gyfrwng i wneud hyn yn rheolaidd.

9.2 Yn dilyn pryderon ynghylch problemau'r Gwasanaeth Ambiwlans yng Nghymru, ar 28 Mehefin, argymhellodd y Pwyllgor gylch gorchwyl ar gyfer adolygu'r gwasanaeth ac argymhellodd y dylid estyn gwahoddiad i'r Archwilydd Cyffredinol i ymgymryd ?146;r gwaith. Ym mis Ionawr trafododd y Pwyllgor adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a chynnig. Ar 14 Mawrth, trafododd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad a'i chynigion.

## 10. Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8)

Ymgynghorwyd ag enwebeion y Pwyllgor, Rhodri Glyn Thomas AC a Karen Sinclair AC, ynglyn ?6 o benodiadau cyhoeddus.

## 11. Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8)

11.1 Trafododd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2007 -08 a rhoddodd sylwadau arni. Mae llythyr y Cadeirydd yn nodi'r blaenoriaethau a argymhellodd y Pwyllgor

ynghlwm yn Atodiad 3. .

## 12. Materion Trawsbynciol

12.1 Ym mis Mehefin 2006, trafododd y pwyllgor adroddiad yr adolygiad ar ddiogelu plant sy'n agored i niwed ('Ein Cadw'n Ddiogel'), dan gadeiryddiaeth Gwenda Thomas AC. Ar 8 Mawrth, cyfarfu'r Pwyllgor ar y cyd ?146;r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal i drafod adroddiad Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2005-06.

## 13. Cynlluniau Statudol

13.1 Wrth ymgymryd ?146;i waith, mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw i gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran ei berthynas ?146;r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy. Rhoddodd sylw hefyd i ofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a'r ddyletswydd sydd ar y Cynulliad yn ?dran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i roi sylw i'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

13.2 Ym mis Hydref, cyflwynodd y Comisiwn Hawliau Anabledd ei adroddiad am anghydraddoldebau iechyd ac ar 1 Mawrth, holwyd y Gweinidog ynghylch ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd

**Annex 1**

## The Committee's Portfolio

In accordance with s57(4) of the Government of Wales Act 1998, the Committee's portfolio follows that of the Assembly Minister:

- All aspects of the National Health Service in Wales, including general practice and primary care, other than (i) oversight of the medical professions; (ii) policy on surrogacy, xenotransplantation, embryology and human genetics; and (iii) licensing of medicines. (These matters are not devolved to the National Assembly.)
- Charges for NHS services, including prescription, dental and ophthalmic and optical charges.
- The provision of services in Wales to the mentally ill.
- All aspects of public health in Wales, including food safety.
- The regulation of poisons.
- The activities of the Food Standards Agency in Wales.
- Genetically-modified food (but not the cultivation of genetically-modified crops - this is for the Minister for Environment, Planning and Countryside).
- Policy on care in the community.
- Policy on the provision of social services for children, including the regulation of playgroups, activity centres and childminding.

- Oversight of the social services activities of local authorities in Wales including the issuing of statutory guidance.
- Oversight of

    - the Care Council for Wales;
    - the Wales Centre for Health;
    - the Healthcare Inspectorate Wales;
    - the Care Standards Inspectorate for Wales.

- Regulation of private care and nursing homes in Wales.
- Inspection of, and reporting on, the provision of social services by local authorities in Wales (via the Social Services Inspectorate for Wales).
- Adoption and fostering services in Wales (but not adoption of children by UK residents abroad).
- Cross-cutting responsibility for health improvement, and older people and carers.

**Annex 2**

## Duties of the Committee

The Health and Social Services Committee is one of seven subject committees. The responsibilities of the subject committees are set out in the National Assembly's Standing Orders :

"9.7. Each subject committee shall

- contribute to the development of the Assembly's policies within the fields for which the relevant Assembly Minister is accountable to the Assembly;
- keep under review the expenditure and administration connected with their implementation; and
- keep under review the discharge of public functions in those fields by public, voluntary and private bodies.

Each subject committee shall also, within the relevant fields,

- advise on proposed legislation affecting Wales, including performing its functions under SO22 (now SO24);
- provide advice to the Assembly Cabinet on matters relating to allocation of the Assembly's budget in accordance with Standing Order 19 (now SO21);
- perform its functions under Standing Order 21(complaints) (now SO23);
- perform any functions assigned to it under the Code of Practice on Public Appointments Procedure made by the Assembly under Standing Order 20 (now SO22); and
- consider matters referred to it by the Assembly within its fields."

Standing Order 9.9 requires the subject committee to maintain a rolling programme of work covering

periods of at least 12 months.

**Annex 3**

| | | |
|---|---|---|
| | | Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Health and Social Services Committee |
| Brian Gibbons AM<br>Minister for Health and Social Services | | Bae Caerdydd / Cardiff Bay<br>Caerdydd / Cardiff CF99 1NA<br><br>Eich cyf / Your Ref<br>Ein cyf / Our Ref HSS(2)-10-06<br><br>6 July 2006 |

Dear Minister,

BUDGET PROPOSALS 2007-08

The Finance Minister has asked for the Committee's strategic priorities for next year's budget by 7 July. The Health and Social Services Committee considered your paper (HSS(2)-10-06(p4) at our meeting on 15 June and identified the following priorities:

- mental health services, particularly child and adolescent services;
- the ambulance service;
- capital funding to reconfigure hospital services and develop community based services to implement Designed for Life;
- the drugs budget;
- implementation of the Townsend formula;

- the development of clinical networks; and
- implementation of the recommendations of the Committee’s review of cancer services.

I look forward to seeing your detailed proposals in the autumn. I am copying this letter to Sue Essex and Members of the Committee.

Yours sincerely,

Rhodri Glyn Thomas AM
Chair

## Atodiad 2

## Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
## Adroddiad i’r Cyfarfod Llawn o dan Reol Sefydlog 9.9
## Adroddiad i’w Gyflwyno i’r Trydydd Cynulliad - 2003 i 2007

### Cyflwyniad

i. Mae’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Gwneir yr Adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sydd yn gorchymyn bod y pwyllgorau pwnc yn adrodd i’r Cynulliad yn gyson ar eu cynnydd wrth gyflawni’u rhaglen waith. Llunnir yr adroddiad ar wah?i adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2006-2007, ac mae dwy ran iddo. Yn gyntaf, mae’n rhoi golwg cyffredinol ar flaenoriaethau strategol a gweithgarwch y Pwyllgor yn ystod yr ail Gynulliad. Mae ail ran yr adroddiad sydd i’w gyflwyno i’r Pwyllgor(au) olynol yn y trydydd Cynulliad, yn dangos materion pwysig y bydd y Pwyllgorau hynny o bosibl am eu hystyried.

ii. Gellir gweld adroddiadau, agendau, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau’r cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

### 1. Trosolwg Strategol

Cylch gorchwyl a chyfrifoldebau

1.1 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Tan 10 Ionawr 2005, ‘roedd hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros faterion plant.

### Gwaith a Chyflawniadau

1.2 Cyfarfu’r Pwyllgor 58 o weithiau yn ystod yr ail Gynulliad. Ar 27 Ionawr 2005, 13 Mawrth 2006 a 8 Mawrth 2007 cyfarfu ar y cyd ?146;r Pwyllgorau Addysg, Dysgu gydol Oes a Sgiliau, Cyfle Cyfartal, a Chyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, i drafod adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant

Cymru. Fel rhan o'i ymrwymiad i sicrhau bod ei drafodion yn fwy hygyrch i bobl Cymru, cyfarfu'r Pwyllgor yng Nghaerfyrddin ym mis Rhagfyr 2003 ac yn Wrecsam ym mis Gorffennaf 2004.

1.3 Dros y cyfnod o bedair blynedd, craffu ar bolis? Llywodraeth Cynulliad Cymru fu nod y Pwyllgor gan fonitro gweithredu'r polis? hynny i sicrhau bod pobl Cymru'n cael cyrchu gwasanaethau sydd yn gwella'u hiechyd a bod y polis?'n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol iddynt pan fydd angen.

1.4 Dyma'r materion gafodd flaenoriaeth:

- Ailstrwythuro'r GIG;
- Lleihau amseroedd aros a'r oedi wrth drosglwyddo pobl rhwng asiantaethau gofal;
- capasiti;
- iechyd meddwl;
- strategaeth gofal sylfaenol;
- safonau ac ansawdd gofal cymdeithasol;
- amddiffyn plant.

1.5 Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar wyth Mesur neu Fesur drafft a gyflwynwyd gan lywodraeth y DU a 61 rhan o is-ddeddfwriaeth. Dyma'r Mesurau:

- Y Mesur Plant (Mai 2004)
- Mesur yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (Mai 2004)
- Mesur Drafft Iechyd Meddwl (Hydref 2004)
- Mesur Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru)(Mai 2005)
- Y Mesur Plant a Mabwysiadu (Tachwedd 2005)
- Mesur Iawndal y GIG (Tachwedd 2005)
- Y Mesur Iechyd (Ionawr 2006)
- Mesur Iechyd Meddwl (Ionawr 2007)

1.6 Rhoddodd y Cadeirydd a dau Aelod o'r Pwyllgor dystiolaeth i'r

Cydbwyllgor Seneddol ar ddrafft y Mesur Iechyd Meddwl. Trafododd y Pwyllgor hefyd y Mesur Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus (Cymru) a gyflwynwyd i Dy'r Arglwyddi gan y Farwnes Finlay o Landaf. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion y Mesur.

1.7 Bu'r Pwyllgor yn gyfrifol am dri adolygiad polisi sylweddol.

1.8 Ym mis Hydref 2003 cyflawnodd ymgynghoriad cyhoeddus eang ar adolygiad o'r Cysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Penododd y Pwyllgor Dr Vivienne Walters, Athro Polisi Iechyd, Prifysgol Caerdydd, yn gynghorydd arbenigol. Fel rhan o'i gwaith, creodd Dr Walters grwpiau ffocws i gasglu tystiolaeth gan ddefnyddwyr y gwasanaethau a'r darparwyr rheng flaen mewn lleoliad llai ffurfiol. Bu Aelodau'r Pwyllgor hefyd ar ymweliadau casglu gwybodaeth ?arparwyr y gwasanaethau. Lansiwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Mawrth 2005 yng Nghanolfan yr Efail, Port Talbot. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn pob un o'r argymhellion. Yn dilyn hynny, bu'r Pwyllgor yn monitro'r gweithredu, a'r tro diwethaf i hyn ddigwydd oedd ar 7 Chwefror 2007.

1.9 Ym mis Mai 2004, cytunodd y Pwyllgor i adolygu Safon 2 o’r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl. Mae Safon 2 yn trafod rhoi grym i ddefnyddwyr a gofalwyr. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Hydref 2005, ar ? ymgynghori’n ysgrifenedig ? efnyddwyr a darparwyr y gwasanaethau yn y sectorau statudol a gwirfoddol a chymryd tystiolaeth lafar ganddynt. Derbyniodd y Gweinidog 10 o’r argymhellion yn llawn a dau yn rhannol. Ar 7 Chwefror 2007 monitrodd y Pwyllgor y gwaith wrth i’r argymhellion hyn gael eu gweithredu.

1.10 Yn dilyn ymgynghori rhagarweiniol yn gynnar yn 2006, cytunodd y Pwyllgor ar 5 Ebrill y byddent yn adolygu Gwasanaethau Canser ar gyfer Pobl Cymru. Ar y dechrau, ‘roedd y cylch gorchwyl yn eang, ond ar ?mgynghoriad ysgrifenedig, penderfynodd y Pwyllgor ym mis Medi y byddent yn canolbwyntio ar bum agwedd ar y gwasanaethau lle nad oedd datblygiad gweithredol ar y gweill a lle y teimlid bod modd sbarduno newid. Oherwydd y materion meddygol a thechnegol amrywiol a godwyd, penododd y Pwyllgor grwp cyfeirio arbenigol, dan gadeiryddiaeth Dr Andrew Fowell, i’w cyfarwyddo. Cyfarfu’r grwp bedair gwaith, gan gynnwys cyfarfod ?146;r Pwyllgor am y tro olaf ym mis Rhagfyr 2006, pan roddodd gyngor ynghylch y canfyddiadau ac argymhellion. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor, ynghyd ?7 argymhelliad, ar 5 Chwefror 2007, ac fe’i lansiwyd yn y gynhadledd Cymru yn erbyn Canser;

1.11 Ar 13 Ebrill 2005 sefydlodd y Pwyllgor is-bwyllgor o dan Reol Sefydlog 8.27. Roedd yn cynnwys holl aelodau Pwyllgor ac eithrio’r Gweinidog. Y Cadeirydd oedd David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor;

1.12 Diben yr is-bwyllgor oedd craffu’n ddyfnach ar waith y Gweinidog o ran perfformiad Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol wrth gyflwyno’r polis? a’r rhaglenni sydd ym mhortffolio’r Gweinidog;

1.13 Cyfarfu’r is-bwyllgor deirgwaith gan edrych ar saith pwnc:

| | |
|---|---|
| 16 Mehefin 2005 | i. Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf y GIG;<br>ii. Perfformiad y Gwasanaeth Ambiwlans yng Nghymru;<br>iii. Gwasanaethau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. |
| 17 Tachwedd 2005 | i. Gofal Lliniarol<br>ii. Y cynllun taliadau uniongyrchol sydd yn galluogi defnyddwyr y gwasanaethau gofal i brynu’u gofal eu hunain. |
| 5 Ebrill 2006 | i. Gweithredu fformiwla Townsend ar gyfer dyrannu adnoddau i’r GIG;<br>ii. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gofal rhad ac am ddim yn y cartref i bobl anabl. |

## 2. Ar Gyfer Pwyllgor(au) Olynol

### Materion Strategol

2.1 Argymhellir bod Pwyllgor(au) olynol yn canolbwyntio ar y materion strategol lefel uchel canlynol:

- Gallu’r GIG a’i bartneriaid i gwrdd ag anghenion iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth, gyda golwg arbennig ar leihau amseroedd aros a’r oedi sy’n digwydd wrth drosglwyddo gofal; gwasanaethau gofal argyfwng a moderneiddio’r Gwasanaeth Ambiwlans.
- Gwella iechyd.
- Diogelu’r rhai mwyaf bregus yn y boblogaeth , hy. plant, oedolion hyn a rhai ag anabledd

### Materion trawsffiniol

2.2 Nid oes materion eraill penodol sydd angen sylw, ond dylai unrhyw bwyllgor olynol gofio am y cysylltiadau parhaus ag addysg ac effaith tai gwael ar iechyd. Yn yr un modd mae angen i’r holl asiantaethau sy’n darparu gwasanaethau i blant gydweithio’n agos ?146;i gilydd.

### Eitemau Eraill i’w Hystyried

### Deddfwriaeth Sylfaenol

2.3 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 1.5 uchod mae’r Mesur Iechyd Meddwl o flaen y Senedd ar hyn o bryd. Barn y Pwyllgor oedd bod y Mesur yn sylfaenol ddiffygiol ac ‘roeddent yn argymell bod y Gweinidog yn ceisio pwerau fframwaith i Gymru. Trafodwyd adroddiad y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Chwefror. ‘Rydym yn argymell gwylio datblygiadau’n ofalus i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer Cymru’n gynaliadwy ac yn cydweddu ?146;r Strategaeth Iechyd Meddwl a’r Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol.

### Is-ddeddfwriaeth

2.4 Cytunodd y Pwyllgor ar brotocol ar gyfer nodi darnau pwysig o is-ddeddfwriaeth a chraffu arnynt. Clustnodwyd y canlynol ar gyfer craffu, ond nid oeddent ar gael cyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor

| Teitl | Diben | Amser arfaethedig | Canlyniad Negyddol/ Cadarnhaol |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Gweithdrefn Gwyno’r GIG(Cymru) | Rhoi sail statudol i weithdrefn y GIG a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2003 | Anhysbys | Cadarnhaol |
| Gorchymyn Deddf Dwr 2003 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) | Dod ?h..58 o Ddeddf dwr 2003 i rym er mwyn cyflwyno rheoliadau ymgynghori ynghylch fflworideiddio dwr yng Nghymru | Anhysbys | Negyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Fflworideiddio Dwr (Ymgynghoriad Cymru) | Cyflwyno rheoliadau fydd yn rheoli trefniadau ymgynghori pe cyflwynid unrhyw gynllun(iau) fflworideiddio yng Nghymru | Anhysbys | Negyddol |
| Rheoliadau Ymchwiliad Shipman | Newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol wrth ymateb i argymhellion a gafwyd yn Shipman IV a V | Haf 2007 | Negyddol |
| Deddf Safonau Gofal 2000 – Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi i Oedolion Iau. | O bosibl i gyflwyno nifer o leddfiadau i'r SGC ar gyfer cartrefi gofal bach, hy. llai na 3 phreswylydd. | Anhysbys | Anhysbys |
| Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) | WP10 fel dull o rhagnodi ocsigen | Anhysbys | Anhysbys |
| Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) | Yn lle'r Gyfarwyddeb Ychwanegiadau Bwyd | Mai 2007 | Negyddol |

## Adolygiadau Polisi

2.5 Bydd pwyllgor(au) y Trydydd Cynulliad o bosibl yn dymuno monitro'r cynnydd a wneir ar adolygiadau polisi'r ddau Gynulliad cyntaf. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Pwyllgor, o leiaf, graffu ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o Wasanaethau Canser ar gyfer Pobl Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2007.

2.6 Un o'r materion a godwyd yn yr Adolygiad o wasanaethau Canser oedd mynediad at gyffuriau a therap? newydd. 'Roedd adroddiad y Pwyllgor yn

argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn ymgynghoriad ?lywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban a chyrff perthnasol eraill , yn ceisio sefydlu protocol ar gyfer gwerthuso cyffuriau a therap? newydd fydd yn cyflymu'r broses ac osgoi disgwyliadau afresymol ac anwybodus o du'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn monitro'r cynnydd a wneir yn y maes hwn a bod Pwyllgor yn archwilio'r berthynas rhwng y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) a Grwp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan a phriod swyddogaethau'r ddau

sefydliad.

2.7 Ym mis Hydref 2006 cyflwynodd y Comisiwn Hawliau Anabledd (CHA) eu hadroddiad ar gyfer Cymru ‘Triniaeth Gyfartal: Cau’r Bwlch’. Roedd y Pwyllgor yn derbyn y byddai llawer o’r argymhellion yn cymryd amser i’w gweithredu ond cytunodd y dylai drafod yr adroddiad eto ym mis Mawrth 2007 i weld faint o gynnydd a wnaed. Ymatebodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fanwl i argymhellion yr adroddiad a darparodd y Comisiwn Hawliau Anabledd wybodaeth ynghylch yr ymateb a gafwyd gan gyrff eraill. Er bod cynnydd sylweddol wedi’i wneud, ceid bylchau o hyd. Byddai panel archwilio ’r CHA yn cael ei ailymgynnull i adolygu’r argymhellion yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

2.8 Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai’r Pwyllgor olynol fonitro’r cynnydd yn nes ymlaen yn 2007.

## Materion Ewropeaidd

2.9 Cyhoeddwyd Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar 24 Hydref 2006. Ynddi, rhestrir yr holl eitemau strategol a blaenoriaethol a gynigir gan y Comisiwn yn 2007. http://ec.europa.eu/atwork/programmes/docs/clwp2007_en.pdf

2.10 Yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth, trafododd y Pwyllgor gynnig y Comisiwn Ewropeaidd i sefydlu Fframwaith Cymunedol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Diogel ac Effeithlon. Roedd eitemau eraill yn rhaglen waith y Comisiwn ar gyfer 2007 y byddai pwyllgor olynol yn dymuno o bosibl eu trafod neu’u monitro.

2.11 Cyfathrebiad ar Strategaeth Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol o Ddiddordeb Cyffredinol. Cyfathrebiad anneddfwriaethol yw hwn; bydd yn ystyried, fodd bynnag, yr angen am ddeddfwriaeth gan yr UE yn y maes hwn i’r dyfodol a phosibilrwydd cael y cyfryw ddeddfwriaeth. Disgwylir ei dderbyn ym mis Tachwedd 2007. Y prif amcanion yw:

- Nodi a chydnabod nodweddion penodol gwasanaethau cymdeithasol sydd o ddiddordeb cyffredinol;
- Egluro’r fframwaith sy’n eu cynnal ac y gellid ei ddefnyddio wrth eu moderneiddio; a
- Chynnig camau ymhellach tuag at gael agwedd systematig ym maes gwasanaethau cymdeithasol sydd o ddiddordeb cyffredinol.

2.12 Papur Gwyn ar strategaeth iechyd: Iechyd yn Ewrop, agwedd strategol.

Mae hyn yn gofyn am weithredu anneddfwriaethol, a disgwylir ei dderbyn yn hydref 2007. Mae’r Strategaeth Iechyd yn anelu at:

- ddatblygu agwedd fwy cyfun a chydlynol i bob gweithredu ym maes iechyd a sicrhau bod y syniad "iechyd ym mhob polisi" yn cael ei roi ar waith;
- llunio agenda polisi ar them?iechyd allweddol;
- helpu mynd i’r afael ag anghydraddoldebau ym maes iechyd a hybu buddsoddi mewn iechyd;
- datblygu gallu’r UE i ymateb i argyfyngau/bygythiadau iechyd;

- cryfhau cydweithredu rhwng systemau iechyd cenedlaethol;
- cryfhau rhan yr UE mewn iechyd rhyngwladol;
- monitro cynnydd gyda thargedau a dangosyddion; a
- rhoi mecanwaith ac offerynnau Cymunedol ar waith.

2.13 Papur Gwyn ar Faethiad. Mae hwn sydd ?yddiad derbyn arfaethedig ym mis Ebrill 2007 yn gofyn am weithredu anneddfwriaethol,. Bydd y ddogfen yn sefydlu strategaeth ar faethiad a gweithgarwch corfforol ar lefel y Gymuned Ewropeaidd. Ei amcan fydd hybu ffordd iach o fyw er mwyn atal y duedd gynyddol gyffredinol at orbwysedd a gordewdra a'r cyflyrau meddygol cronig ddaw yn sgil y rheiny. Bydd yn hybu gweithredu fel partneriaethau wrth gyflawni hyn. Mae hyn yn dilyn Papur Gwyrdd y Comisiwn ar hybu bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol yr ymatebodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Corfforol iddo ym mis Chwefror 2006.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Mawrth 2007